WHC (2022) 022

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

**Dyddiad Cyhoeddi: 22 Awst 2022**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: POLISI**

**Teitl: Rôl y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol**

**Dyddiad Adolygu: Awst 2024**

**I'w weithredu gan:**
**Brif Weithredwyr pob Bwrdd Iechyd**

**Camau i'w cymryd:**
**Ar unwaith fel yr amlinellir ar dudalen 3**

Anfonir gan: **Alex Slade, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl**
**Andrew Dickenson, Prif Swyddog Deintyddol**

**Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**

**Andrew Dickenson, Prif Swyddog Deintyddol**
**andrew.dickenson@llyw.cymru (Ffôn. 0300 0253072)**

**Dogfen(nau) amgaeedig: Canllawiau ac atodiadau ar y mater uchod**

## Rôl y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol a Gwasanaethau i Bobl Agored i Niwed

### Crynodeb

Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yn cymryd lle WHC(2019)021 a gyhoeddwyd yn 2019. Mae’r Cylchlythyr yn darparu canllawiau wedi'u diweddaru ar rôl y gwasanaeth deintyddol cymunedol, gan gynnwys ehangu swyddi swyddogion deintyddol cyflogedig, i gefnogi cymunedau lleol sydd â mynediad cyfyngedig neu ddim mynediad o gwbl at wasanaethau deintyddol cyffredinol a ddarperir fel arfer drwy’r model contractiwr annibynnol.

### Camau i’w cymryd

Gofynnir i Brif Weithredwyr y Byrddau Iechyd sicrhau bod trefniadau ar waith i weithredu'r canllawiau hyn. Wrth wneud hynny mae angen iddynt nodi'r ystod lawn o wasanaethau deintyddol sydd eu hangen i ddiwallu’r anghenion iechyd deintyddol ac iechyd y geg yn eu hardal ac i fodloni'r ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau deintyddol i ddiwallu pob angen rhesymol.

Dylai’r byrddau iechyd ddefnyddio’u strwythurau cynghori proffesiynol i adolygu a llywio gofal deintyddol a ddarperir gan bob gwasanaeth deintyddol lleol gan gynnwys y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol, gwasanaethau gofal sylfaenol a ddarperir gan Wasanaethau Deintyddol Cyffredinol, Gwasanaethau Deintyddol Personol a Gwasanaethau Deintyddol Ysbytai, a sut mae'r rhain yn ymwneud â ffiniau awdurdodau lleol a chlystyrau gofal sylfaenol. Bydd arbenigwyr ac ymgynghorwyr Iechyd Cyhoeddus Deintyddol yn darparu cymorth manwl ac arbenigol o ran asesu anghenion ac, mewn cydweithrediad ag eraill, gyngor ar ddatblygu gwasanaethau.

Dylid ystyried y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yn wasanaeth deintyddol integredig ac iddo rôl amrywiol a hyblyg. Ni ddylid ei ystyried yn wasanaeth sy'n seiliedig ar ofal sylfaenol yn unig. Bydd gwasanaeth deintyddol cymunedol cryf yn darparu'r holl wasanaethau sydd eu hangen ar gyfer ei phoblogaeth leol a gall hyn gynnwys gwasanaethau deintyddol cyffredinol ymgynghorol, arbenigol, canolradd a rheolaidd.

Dylid annog y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol i weithio ar y cyd â gwasanaethau deintyddol lleol mewn ysbytai, gan gynnwys gwasanaethau’r geg a gwasanaethau’r ên a’r wyneb.

Bydd Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol effeithiol yn gofyn am fuddsoddiad yn y gweithlu a'r seilwaith, gan sicrhau bod cyfarpar modern a systemau TG cadarn ar gael i’r clinigwyr. Mae seilwaith gwael yn cael ei ystyried yn rhwystr i recriwtio a chadw staff.

### Darparu Gwasanaethau Deintyddol i Bobl Agored i Niwed

Gellir diffinio pobl agored i niwed fel y rhai sydd wedi gweld anghydraddoldeb o ran eu profiad o afiechydon a/neu eu mynediad at ofal. Mae gan unigolion anghenion a galluoedd gwahanol i’w gilydd, ond bydd gan lawer ohonynt anghenion gofal arbennig na fydd gwasanaethau deintyddol cyffredinol yn gallu eu diwallu. Gall gwella iechyd y geg wella iechyd cyffredinol pobl agored i niwed. Mae darparu deintyddiaeth gofal arbennig yn un o rolau craidd y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol.

Mae pobl agored i niwed yn aml yn wynebu mwy o risg o gael clefyd y dannedd a’r geg ac maent yn debygol o gynnwys pobl nad ydynt yn gallu:

- cydweithredu â gofal deintyddol arferol;

- deall yr angen am ofal deintyddol a hylendid da o ran y geg;
- cynnal hylendid y geg da heb gymorth;
- cael gafael yn rhwydd ar wasanaethau deintyddol (e.e. cleifion sydd angen teclyn i'w codi i'r gadair ddeintyddol).

Gallant hefyd fod:

- yn bobl sydd ag anghenion iechyd cymhleth a allai gynnwys anghenion meddygol, corfforol, neu iechyd meddwl;
- dan anfantais gymdeithasol, gan gynnwys ceiswyr lloches, pobl ddigartref, a phobl ag anhwylderau camddefnyddio sylweddau;
- yn blant sy'n derbyn gofal neu'n blant â chlefyd deintyddol sy'n effeithio'n ddifrifol arnynt a/neu bod neb yn mynd â nhw i gael gofal deintyddol;
- yn bobl hŷn eiddil ac agored i niwed, gan gynnwys rhai sy'n byw gyda dementia a phobl sy'n byw mewn cartrefi gofal sy'n methu cael gofal gan feddygon teulu.

Dylai byrddau iechyd fod yn ymwybodol y bydd ar gleifion sy'n cael eu derbyn i'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol am driniaeth angen mwy o amser i'w trin, yn aml, er enghraifft cleifion gofal arbennig, oedolion ffobig, plant, ac ati. Felly nid yw cymharu nifer y cleifion â gwasanaethau deintyddol cyffredinol lleol yn ddefnyddiol nac o gymorth.

**Rhannu Gofal a Llwybrau Gofal**

Dylai cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio at y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol am driniaeth, gan gynnwys oedolion a phlant, gael eu rhyddhau lle bo modd yn ôl i'w practis deintyddol cyffredinol presennol gan ddefnyddio'r llwybrau y cytunwyd arnynt yn lleol a'r meini prawf ar gyfer eu derbyn am atgyfeiriad.

Mewn rhai achosion, efallai mai dim ond rhannau penodol o gynllun triniaeth y bydd angen i glinigwr y Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol eu gwneud, a gall y driniaeth sy'n weddill gael ei rhoi'n ddiogel gan eu Hymarferydd Deintyddol Cyffredinol presennol.

**Gwasanaethau Cartref**

Dylai gofal yn y cartref adlewyrchu'r angen o safbwynt y risgiau a'r budd i gleifion. Bydd gweithredu meini prawf cymhwysedd cadarn yn golygu bod modd darparu gwasanaeth cartref cydlynus. Cleifion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd yw rhai o'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas a dylai'r Byrddau Iechyd, fan leiaf, sicrhau mynediad brys amserol i'r grŵp hwn o gleifion.

**Rôl Hyfforddiant a Datblygu**

Mae gan dimau Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol rôl hanfodol o ran darparu hyfforddiant i ddeintyddion (yn ystod eu cwrs ac ar ôl graddio); ac i'r rhai sy'n gwneud hyfforddiant arbenigol. Mae enghreifftiau'n cynnwys addysg allgymorth myfyrwyr deintyddol ar eu blwyddyn olaf; Hyfforddiant Sylfaen Deintyddol; Hyfforddeion Craidd Deintyddol; a hyfforddiant arbenigol ôl-raddedig. Mae angen i hyfforddiant arbenigol gael ei oruchwylio gan ymgynghorydd neu arbenigwr (mewn rhai disgyblaethau mae goruchwyliaeth yn orfodol). Mae hyn yn golygu bod angen cydweithio'n agos ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru a darparwyr hyfforddiant eraill a rhaid i hyn beidio ag effeithio ar eu gallu i ddiwallu anghenion pobl agored i niwed.

Mae galw'n aml ar aelodau o dimau Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol i ddefnyddio eu harbenigedd i gefnogi grwpiau Cymru gyfan, y trydydd sector a sefydliadau arbenigol. Yn ogystal, maent yn rhoi cyfraniad gwerthfawr i'r gwaith ehangach o ddatblygu a darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, e.e. drwy eu gwaith yn hyfforddi myfyrwyr/nyrsys cofrestredig ac ymwelwyr iechyd. Hefyd, drwy hyfforddiant i wella gofal y geg i oedolion a phlant agored i niwed yn yr ysbyty a rhaglenni cartref gofal Gwên am Byth yr ydym yn disgwyl parhau â hwy. Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol, mae grŵp Cymru gyfan y Deoniaid Prifysgol Nyrsio a Bydwreigiaeth Iechyd wedi integreiddio iechyd deintyddol/y geg yn eu cwricwla ac mae'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol mewn sefyllfa dda i barhau i ddarparu neu gefnogi hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr nyrsio.

Hoffai Llywodraeth Cymru annog ac ehangu hyfforddiant deintyddol i'r tîm cyfan o fewn y gwasanaeth deintyddol cymunedol

**Addysg a Hyrwyddo Iechyd y Geg i gleifion unigol ac iechyd y cyhoedd**

Cyfarwyddwyr clinigol y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol sy'n gyfrifol am gyflwyno rhaglenni iechyd y geg cenedlaethol fel Cynllun Gwên a Gwên am Byth o fewn eu Bwrdd Iechyd. Yn ogystal â'r rhaglenni hyn gan Lywodraeth Cymru, disgwylir i bob Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol hefyd fod â rôl iechyd y cyhoedd a chymryd rhan mewn ymgyrchoedd cenedlaethol megis ymwybyddiaeth o ganser y geg.

**Arolygon Epidemiolegol Deintyddol**

Mae arolygon cenedlaethol a lleol rheolaidd ar iechyd y geg plant ac oedolion wedi rhoi sail gadarn i Gymru ar gyfer cynllunio gwasanaethau a'r gweithlu. Maent yn cyfrannu at yr asesiadau anghenion iechyd y geg y mae'n rhaid i fyrddau iechyd eu cynnal i gefnogi'r ddarpariaeth genedlaethol a lleol o wasanaethau deintyddol a gwaith clystyrau gofal sylfaenol.

Cefnogir asesiad o'r holl grwpiau oedran drwy arolygon epidemiolegol deintyddol a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Fel rhan o'i swyddogaeth iechyd y cyhoedd mae'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol wedi datblygu arbenigedd yn y maes hwn. Rydym yn ystyried cadw a datblygu gallu a chapasiti i ymgymryd â gwaith arolwg deintyddol fel blaenoriaeth ac rydym yn disgwyl i'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol ddefnyddio data lleol i helpu i gynllunio gwasanaethau.

**Sgrinio**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol ar sgrinio deintyddol mewn ysgolion:
https://llyw.cymru/iechyd-a-gofal-cymdeithasol

Mae'r canllawiau hyn yn nodi na fydd y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yn ymgymryd â sgrinio arferol mewn ysgolion. Mae'n nodi ymhellach y gall y Gwasanaeth ddarparu asesiadau risg iechyd y geg clinigol i grwpiau agored i niwed, gan gynnwys pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal i bobl hŷn neu bobl ag anabledd dysgu. Rydym yn disgwyl i'r Gwasanaeth ddiffinio amcanion y gweithgarwch hwn yn glir, a'i werthuso, er mwyn sicrhau ei fod yn ffordd effeithlon o nodi unigolion sydd angen gofal a'u cyfeirio at wasanaethau priodol.

**Y gweithlu**

Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno gweld buddsoddiad yn y gwasanaeth deintyddol cymunedol i sicrhau, lle bo modd, bod staff yn cael eu datblygu a'u huwchsgilio mewn meysydd perthnasol i ddiwallu anghenion eu poblogaeth leol. Dylai hyn fod ar gyfer y tîm deintyddol cyfan.

Dylid ystyried o ddifrif ehangu nifer y therapyddion deintyddol o fewn y tîm pan fydd cyllid ar gael drwy swyddi gwag a buddsoddiad. Yn aml gall therapyddion deintyddol reoli cyfran sylweddol o lwyth achos swyddog deintyddol arferol, er enghraifft drwy ddefnyddio tawelydd mewnanadlol i reoli cleifion pediatrig pryderus, a dylid datblygu gofal a rennir o fewn y tîm deintyddol cymunedol. Mae Llywodraeth Cymru yn annog therapyddion deintyddol i ymarfer mynediad uniongyrchol gyda chytundeb y cyfarwyddwr clinigol.

Dylai'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol fod yn esiampl wrth ddefnyddio cymysgedd sgiliau o fewn y tîm deintyddol. Dylai'r tîm deintyddol modern sicrhau bod nyrsys deintyddol yn chwarae rhan weithredol yng ngofal eu cleifion. Dylai cyfarwyddwyr clinigol wneud y mwyaf o'r defnydd o'r tîm deintyddol cyfan gan sicrhau bod gan bob aelod amcanion, rolau, a chyfrifoldebau clir i greu gwasanaeth effeithlon, sy'n canolbwyntio ar gleifion, ar gyfer eu poblogaeth leol.

**Recriwtio a Chadw o fewn y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol**

Dylai Byrddau Iechyd weithio gyda'u harweinwyr clinigol deintyddol i ddatblygu strategaeth cadw'r gweithlu - gallai hyn fod drwy arloesi, hyrwyddo manteision gweithio i'r GIG mewn rôl gyflogedig, adeiladu ar enw da, symleiddio'r broses recriwtio ac ati. Byddem yn disgwyl i arweinwyr clinigol y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol reoli eu cyllidebau'n briodol ac, o fewn eu dyraniad, gael yr awdurdod i arwain ar geisiadau swyddi o fewn bwrdd iechyd. Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data gweithlu’r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yn flynyddol ac ni fyddai'n disgwyl gweld llai o swyddi heb gyfiawnhad.

**Gofal Brys**

Mae disgwyl i'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol ddarparu gofal brys amserol o fewn oriau arferol i gleifion a fyddai fel arfer yn cael mynediad at wasanaethau drwy bractis Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol annibynnol y GIG pan nad yw claf yn gallu cael mynediad at wasanaeth o'r fath. Mae'r swyddogaeth hon yn dargyfeirio'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol oddi wrth eu gwasanaeth craidd a bydd angen i Fyrddau Iechyd fuddsoddi yn eu Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol i wneud yn siwr bod darpariaeth wrth gefn mewn gwasanaethau deintyddol lleol.

**Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol a Gwasanaeth Deintyddol Personol**

Mewn ardaloedd lle nad yw mynediad yn ddigonol, dylai Byrddau Iechyd greu swyddi ymarferwyr deintyddol cyffredinol â chyflog. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu y byddai rhai deintyddion yn gweld rôl ymarferydd deintyddol cyffredinol â chyflog yn ddeniadol. Byddai ehangu swyddi o'r fath ledled Cymru yn cynnig cynllunio wrth gefn y mae mawr ei angen ar Fyrddau Iechyd o ran sicrhau bod cleifion yn cael mynediad at ofal y GIG gan gynnwys triniaeth ddeintyddol ar frys. Mewn rhai Byrddau Iechyd, efallai y bydd hyd yn oed yn briodol sefydlu model cyflogedig yn lle practis Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol annibynnol cyfan o fewn y GIG, er enghaifft mewn sefyllfaoedd pan fydd contract wedi'i drosglwyddo'n ôl.

Dylid nodi y bydd rôl ymarferydd deintyddol cyffredinol cyflogedig, sy’n gweld ac yn trin cleifion Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol arferol, yn cymryd taliadau deintyddol priodol y GIG. Bydd ehangu rolau ymarferwyr deintyddol cyffredinol cyflogedig o fewn y Gwasanaeth Deintyddol

Cymunedol hefyd yn caniatáu i gydweithwyr sy'n trin gwahanol grwpiau o gleifion ryddhau cleifion addas o fewn y tîm.

**Technoleg**

Dylai'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg sy'n symleiddio gofal cleifion. Rhagwelir y gellid gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg fideo o bell megis "attend anywhere”. Er enghraifft, gallai arbenigwyr ddarparu cefnogaeth o bell i gydweithwyr gan helpu i leihau'r angen i gleifion deithio a’u galluogi i gael gofal yn nes at eu cartrefi.

Byddai cydweithio rhwng byrddau iechyd yn gwella gwell mynediad at farn arbenigol a chynllunio triniaethau. Gallai technoleg fideo hwyluso hyn.

**Contractau Mygedol**

Anogir Byrddau Iechyd i sefydlu contractau mygedol hirdymor i hwyluso symud staff ar draws ffiniau er mwyn hyrwyddo hyfforddiant ar draws byrddau iechyd, er enghraifft hyfforddiant tawelu, ymlyniadau clinigol ac ati. Dylid symleiddio'r broses hon a'i rhoi ar waith yn gyflym.

**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, a Chasglu Data**

Rhaid i ofal cleifion effeithlon, darparu gwasanaethau a monitro lleol a chenedlaethol gael ei gefnogi gan TGCh da ar gyfer yr holl dimau Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaeth ddarparu data cyswllt cywir â chleifion i Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ar gyfer grwpiau cleifion a byrddau iechyd penodol ddarparu cymorth i systemau TGCh fel rhan o'u cynllunio TGCh cyffredinol er mwyn sicrhau bod data'n cael eu casglu'n gywir ac yn amserol.

**Datblygu Clwstwr**

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol fod yn rhan o waith clwstwr.

**Taliadau Deintyddol yn y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol**

Os yw'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yn darparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol (fel Gwasanaeth Deintyddol Personol) rhaid iddo weithredu o fewn Rheoliadau Taliadau Deintyddol 2006 a bydd taliadau’n cael eu codi.

Ni chodir tâl ar gleifion sy'n cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth, waeth beth yw’r ffynhonnell atgyfeirio, os ydynt yn bodloni’r meini prawf derbyn ar gyfer atgyfeiriadau lleol, er enghraifft cleifion gofal arbennig, llawdriniaeth y geg, adferol, endodontig ac ati. Mae hyn er mwyn bod yn gyson â gwasanaeth deintyddol mewn ysbytai a sicrhau nad yw cleifion o'r fath dan anfantais.

**Crynodeb**

1. Dylid datblygu'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau arferol ac arbenigol (lefel 2 a 3) a heb eu cyfyngu i ofal arbennig a deintyddiaeth bediatrig

2. Ehangu rolau ymarferwyr deintyddol cyffredinol cyflogedig
3. Sicrhau seilwaith/cyfarpar boddhaol
4. Seilwaith TG cadarn
5. Esiampl o arferion gorau o ran cymysgu sgiliau deintyddol
6. Ehangu Therapyddion Deintyddol
7. Defnyddio nyrsys deintyddol i'r eithaf
8. Swyddogaeth Iechyd y Cyhoedd
9. Ehangu rôl hyfforddi a datblygu
10. Defnyddio’r gofod cadeiriau sydd ar gael i’r eithaf